Mae eich asesiad PIP yng Nghanolfan Busnes Orbit, Merthyr Tudful

Cyfeiriad

Canolfan Busnes Orbit,
Parc Busnes Rhydycar,
Merthyr Tudful,
CF48 1DL

Cliciwch am gyfarwyddiadau

Oriau agor

Dydd Llun i Ddydd Gwener
09:00 i 17:00

Map a gwybodaeth ychwanegol ar y dudalen nesaf

Pwysig: canllaw yn unig yw'r cyfarwyddiadau a ddarperir, gwiriwch eich llwybr cyn teithio

Yn y car

Mae'r ganolfan asesu yng **Nghanolfan Busnes Orbit**, sydd wedi'i leoli'n union oddi ar yr A470. Dilynwch yr arwyddion ar gyfer **swyddfeydd Llywodraeth Cymru** a gyrrwch drwy'r giatiau gwyrdd ar ddiwedd y ffordd.

Mae wedi ei leoli heibio i adeilad **Llywodraeth Cymru**.

Ar y bws

Y safle bws agosaf yw **Castle Bingo** a chaiff ei wasanaethu gan lwybrau bysiau 20, 78, 79, 81, 82, E79, S79, S80, T4, X4

Ar y trên

Yr orsaf drenau agosaf yw **Gorsaf Reilffordd Merthyr Tudful** sydd 0.7 milltir (15 munud ar droed) o'r ganolfan.

Un tirnod allweddol yw **swyddfeydd Llywodraeth Cymru** sydd â digon o arwyddbyst. Os dilynwch yr arwyddion ar gyfer y swyddfeydd fe welwch ein hadeilad hefyd. Dyma'r adeilad y mae'r ganolfan asesu wedi'i leoli ynddo.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, ffoniwch ein canolfan ymholiadau ar 0808 178 8115

Mae eich asesiad PIP yng Nghanolfan Busnes Orbit, Merthyr Tudful



Data map ©2022 Google

Parcio

Mae **parcio am ddim** ar gael yn y ganolfan, gyda 4 lle parcio i'r anabl yn union y tu allan i'r brif fynedfa.

Os yw'r rhain yn llawn, mae parcio ar y stryd ar gael ar y ffordd ychydig y tu allan i'r ganolfan ond nid yw hyn yn rhad ac am ddim.

Pan fyddwch chi'n cyrraedd

Cofiwch ddod â dau fath o ID gyda chi.

Rhowch wybod i'r derbynnydd eich bod wedi cyrraedd ar gyfer apwyntiad.

Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae gan y brif fynedfa fynediad i'r anabl â botwm gwthio, sy'n agor y drysau yn syth i'r dderbynfa ar y dde i chi.

Mae'r ystafelloedd asesu ar y llawr gwaelod ac mae toiled hygyrch ar gael.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, ffoniwch ein canolfan ymholiadau ar 0808 178 8115